

Briff Ymchwil

# Y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru

Awdur: **Eleanor Warren-Thomas ac Elfyn Henderson**

Dyddiad: **Medi 2017**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Eleanor Warren-Thomas ac Elfyn Henderson**
Dyddiad: **Medi 2017**
Rhif Papur: **17-021**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a ddarparwyd i Eleanor Warren-Thomas gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a oedd yn galluogi cwblhau'r papur hwn.

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**: 0300 200 6317**
**: Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru**
**: Cynulliad.Cymru/Pigion**
**: @SeneddYmchwil**
**: Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. Crynodeb ..... 1
2. Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod ..... 1
   - Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ..... 2
   - Hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru ..... 2
   - Addysg, Hyfforddiant, Sgiliau ac Arloesedd ..... 2
   - Twf busnes a datblygu'r farchnad ..... 3
   - Diogelwch bwyd ..... 3
3. Y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd ..... 4
4. Cefnogaeth i fusnesau bwyd a diod ..... 4
5. Cynlluniau enw bwyd gwarchodedig yr UE ..... 5
6. Food Policy as Public Policy - adolygiad o gynllun gweithredu a Strategaeth fwyd Llywodraeth Cymru ..... 6
7. Ffynonellau allweddol ..... 6

# 1. Crynodeb

Mae'r diwydiant bwyd a diod yn rhan allweddol o economi Cymru, gan gyflogi dros **240,000 o bobl**, a chynhyrchu **£16.8 biliwn o drosiant yn 2013, a £264 miliwn o allforion yn 2015**.

Nod Llywodraeth Cymru yw gwella perfformiad y sector, gyda tharged o gynyddu trosiant yn y **sector bwyd a ffermio â blaenoriaeth** i £7 biliwn erbyn 2020.

Defnyddir **hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru** i hybu ansawdd a natur unigryw cynhyrchion Cymreig yn ddomestig ac yn rhyngwladol, ac mae **Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru** yn helpu i gyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru.

Mae gan fwyd a diod gysylltiadau cryf hefyd â meysydd polisi eraill, sy'n effeithio ar iechyd, cydraddoldeb a chynaliadwyedd.

# 2. Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod

Yn 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun strategol ar gyfer y diwydiant bwyd a diod: **Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020**. Roedd yn disodli'r **strategaeth Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020**, y barnwyd yn 2013 nad oedd yn addas i'r diben **mwyach**.

Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys 48 o gamau gweithredu, wedi'u grwpio'n bum pennod:

- Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru;
- Hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru;
- Addysg, hyfforddiant, sgiliau ac arloesedd;
- Twf busnes a datblygu'r farchnad; a
- Diogelwch bwyd.

Mae tri o'r camau gweithredu yn gyffredinol neu'n drawsbynciol:

- sefydlu **Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru**;
- datblygu'r **hunaniaeth fasnachol ar gyfer Bwyd a Diod Cymru**; a
- datblygu gweithlu medrus a galluog, ar ôl nodi bylchau mewn sgiliau, yn enwedig yn y gwaith o brosesu a gweithgynhyrchu bwyd.

Prif amcan y cynllun gweithredu yw targed i gynyddu'r trosiant yn y sector bwyd a ffermio â blaenoriaeth o'r gadwyn fwyd 30 y cant o linell sylfaen 2013, i £7 biliwn y flwyddyn erbyn 2020. Mae hefyd yn anelu at gynyddu Gwerth Ychwanegol Gros y sector bwyd a ffermio 10 y cant, i £1.4 biliwn y flwyddyn erbyn 2020. Mae tri deg wyth o'r camau gweithredu wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â chyflawni'r targedau twf hyn, ond pwysleisir tyfiant cynaliadwy a chyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol hefyd.

Rhoddodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, y **wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am gyflawni'r cynllun gweithredu ym mis Tachwedd 2016**. Dywedodd fod gwerth gwerthiant y diwydiant wedi tyfu i £6.1 biliwn a bod 'cynnydd yn sicr ar y

trywydd iawn i gyflawni twf o 30 y cant i £7 biliwn erbyn 2020, gan ein bod eisoes dros hanner ffordd i gyrraedd y targed'.

## Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru

Sefydlu **Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru** er mwyn helpu i gyflawni'r cynllun gweithredu yw'r cam cyntaf a nodir yn y cynllun. Roedd hyn i fod i gael ei gwblhau yn 2014, ond ni chafodd yr aelodaeth ei gwblhau tan fis Ionawr 2016 pan etholwyd cadeirydd, **Andy Richardson (PDF 63KB).** Mae'r bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant ar draws y gadwyn fwyd gyfan. Cytunodd y bwrdd ar ei **gylch gorchwyl** ei hun, sy'n cefnogi ac yn cydnabod yn uniongyrchol saith nod lles ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***. Mae'r bwrdd yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac mae'n ofynnol iddo adrodd yn flynyddol i Ysgrifennydd y Cabinet sy'n gyfrifol am fwyd ynghylch ei gynnydd wrth gyflwyno'r cynllun gweithredu, drwy 'Adroddiad Diweddaru Blynyddol y Sector Bwyd'.

## Hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru

Cam 2 yw datblygu hunaniaeth **Bwyd a Diod Cymru**, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo bwyd a diod yng Nghymru, a Cham 3 yw sefydlu ymagwedd newydd tuag at wobrau'r diwydiant bwyd, i gynyddu gwerthiannau a hyrwyddo diwylliant bwyd.

Daeth cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer brand a gwobrau Cymru: y Gwir Flas i ben yn 2013 ar ôl i'r gwaith ymchwil ddod i'r casgliad nad oedd digon o ddealltwriaeth o'r brand gan fasnach a defnyddwyr. Nid yw hunaniaeth newydd Bwyd a Diod Cymru yn disodli'r gwobrau'n uniongyrchol, ond yn hytrach mae'n darparu hunaniaeth lle gellir hyrwyddo brandiau cwmni presennol.

Yn ystod ei datganiad ym mis Tachwedd 2016 dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Cymru am y tro cyntaf yn cynnal digwyddiad a chynhadledd fasnach ryngwladol - Blas Cymru - ar gyfer y diwydiant bwyd a diod lle gwahoddir y byd i Gymru. Cynhaliwyd y digwyddiad ym mis Mawrth 2017 a chynhelir **digwyddiad Blas Cymru** arall ym mis Mawrth 2019.

## Addysg, Hyfforddiant, Sgiliau ac Arloesedd

Mae Camau 4 i 11 wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â bylchau sgiliau yng ngweithlu'r diwydiant bwyd a diod, gwella effeithlonrwydd a pherfformiad busnes, a chynyddu gwerthiannau ac elw yn y sector. Eu nod yw gwella mynediad at hyfforddiant, hyrwyddo gyrfaoedd yn y diwydiant a hyrwyddo'r Gymraeg.

Roedd astudiaeth o anghenion sgiliau, a gyhoeddwyd gan **Brosiect Sgiliau Bwyd a Diod Cymru** ym mis Rhagfyr 2014, yn gwneud 10 o argymhellion i fynd i'r afael â bylchau sgiliau a phroblemau ehangach yn y sector, y mae Cam 7 yn bwriadu eu gweithredu. Canfu'r astudiaeth fod gan 40 y cant o fusnesau bwyd fylchau o ran sgiliau technegol yn eu gweithlu, a nodwyd anghenion hyfforddiant ar gyfer 15,000 o bobl y flwyddyn yn ystod 2015-2022. Canfu hefyd fod angen recriwtio 50,000 o weithwyr newydd i'r diwydiant erbyn 2022 i gyd-fynd â thargedau twf y cynllun gweithredu, a bod yr anghenion hyfforddi mwyaf yn gorwedd ar ran isaf neu ddi-grefft sbectrwm y gweithlu.

Mae rhywfaint o'r prinder sgiliau oherwydd diffyg diddordeb mewn gyrfaoedd yn y diwydiant, gan fod gan gyrsiau prifysgol a choleg perthnasol leoedd gwag, tra bo'r galw am raddedigion gyda chymwysterau perthnasol yn uchel. Felly, mae Cam 6 yn anelu at wella'r gwaith o hyrwyddo gyrfaoedd yn y diwydiant.

Amlygodd y cynllun gweithredu hefyd y gall hyfforddiant fod yn ddrud i lawer o fentrau bach a chanolig, a gall busnesau ei chael yn anodd dod o hyd i hyfforddiant priodol i'w staff. Nod Camau 4, 8

a 10 yw mynd i'r afael â hyn drwy fapio darparwyr hyfforddiant ledled Cymru, a darparu dulliau newydd o hyfforddi sy'n ddeniadol i fusnesau llai.

## Twf busnes a datblygu'r farchnad

Mae pedwar ar hugain o gamau gweithredu eang (12 - 36) yn y cynllun gweithredu sy'n ymwneud â thwf busnes a datblygu'r farchnad. Mae'r rhain yn mynd i'r afael â'r canlynol: data llinell sylfaen y diwydiant; mynediad at gymorth busnes; mentora; cefnogi arloesedd; integreiddio'r gadwyn gyflenwi; allforion cynyddol; cefnogi cynhyrchion enw bwyd gwarchodedig gan yr UE; denu buddsoddiad uniongyrchol tramor; mynediad at gyfleusterau a safleoedd ar gyfer busnesau; gwella mynediad at brosesau caffael y sector cyhoeddus; datblygu cynllun gweithredu twristiaeth bwyd; a chefnogi digwyddiadau bwyd.

Caiff rhai is-sectorau o'r diwydiant bwyd a diod (megis cig coch, cynhyrchion llaeth a bwyd môr) eu cefnogi gan gyrff ymroddedig, a ariennir drwy daliadau ardoll ar werthiannau, sydd wedi cyhoeddi strategaethau annibynnol (**cig coch**, **cynhyrchion llaeth**, **bwyd môr**).

Nod Camau 17 a 18 yw sicrhau bod cymorth ariannol i fusnesau bwyd a diod o amrywiaeth o ffynonellau, yn arbennig cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig, yr UE a Llywodraeth Cymru, yn briodol ac yn hygyrch. Yn ei **datganiad ym mis Tachwedd 2016**, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet fod cyfanswm o £15.8 miliwn o gyllid buddsoddiad busnes wedi cael ei addo i'r diwydiant drwy Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020, cynlluniau eraill, a gwaith i annog buddsoddiad preifat yn y sector. Amlygodd hefyd lwyddiannau o ganlyniad i gymorth ariannol uniongyrchol Llywodraeth Cymru o wyliau bwyd.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi arwain busnesau bwyd a diod Cymru ar nifer o ymweliadau masnach ryngwladol i Ogledd America, Ewrop, y Dwyrain Canol ac Asia, ac wedi nodi cynnydd o 13 y cant mewn allforion bwyd a diod yn yr hanner cyntaf o 2016. Mewn **datganiad blaenorol ym mis Mehefin 2017** dywedodd fod rhaglenni digwyddiadau allforio a masnach a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cynhyrchu gwerth £7 miliwn o werthiannau newydd.

Yn olaf, amlygodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd lwyddiannau Cymru yn y **Gwobrau Great Taste** yn ei datganiad ym mis Tachwedd 2016 - **enillodd cynhyrchwyr Cymru 125 o Wobrau Great Taste yn 2016**. Barnwyd y gwobrau yng Ngholeg Llandrillo, ger Bae Colwyn, yn 2017 ac ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon **enillwyd tua 176 o wobrau gan gynhyrchwyr Cymru**. Disgwylir i enillwyr 2017 sy'n weddill gael eu cyhoeddi ym mis Medi 2017.

## Diogelwch bwyd

Mae Camau Gweithredu 37 - 48 yn cwmpasu bwyta'n iach, diogelwch bwyd, tlodi bwyd, a chyfrifoldeb amgylcheddol a chymdeithasol yn y diwydiant bwyd a diod, gan gynnwys gwastraff bwyd.

Nod Cam Gweithredu 40 yw hybu bwyta ac yfed yn iach mewn ysgolion drwy'r *Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009* a'r *Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013.*

Mae **Arloesi Bwyd Cymru** , sy'n darparu cymorth ymchwil a datblygu ar gyfer busnesau bwyd, hefyd yn chwarae rhan wrth ddatblygu bwydydd iachach. Gan lunio cyswllt rhwng bwyta'n iach a thlodi bwyd, tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw hefyd at y **Rhwydwaith Tlodi Bwyd**, sy'n gweithio i fynd i'r afael â newyn yn ystod gwyliau ysgol i blant yng Nghymru.

Caiff safonau diogelwch bwyd a safonau hylendid eu gorfodi gan yr Awdurdod Diogelwch Bwyd, a *Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013* a Rheoliadau cysylltiedig, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd yng Nghymru arddangos eu sgôr hylendid bwyd (0-5) mewn man amlwg fel y ffenestr neu'r drws ffrynt.

Disgwylir i'r gwaith o leihau ôl troed ecolegol ac allyriadau carbon busnesau yn y diwydiant bwyd a diod helpu i gynyddu gwerthiannau a sicrhau arbedion i fusnesau. Mae mapiau cynaliadwyedd eisoes wedi'u cyhoeddi ar gyfer yr is-sectorau **cig coch (2011)** a **chynhyrchion llaeth (2010)**, sydd i fod i gael eu diweddaru o dan Gam 47 o'r cynllun gweithredu, ynghyd â'r posibilrwydd o ddatblygu mapiau ar gyfer is-sectorau eraill.

# 3. Y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd

Roedd cyhoeddi'r **Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd (2015-2020)** yn allbwn o dan Gam 35 o gynllun gweithredu 2014. Mae'n nodi uchelgais i sicrhau bod twristiaeth bwyd wedi'i hintegreiddio i bob gweithgarwch **Croeso Cymru** erbyn 2020. Yn 2013, gwnaed 89 miliwn o ymweliadau dydd i Gymru gan breswylwyr y DU, gan wario £3,061 miliwn, lle cafodd 40 y cant ohono (£1,219 miliwn) ei wario ar fwyta allan.

Prif nod y cynllun yw codi proffil Cymru fel cyrchfan twristiaeth bwyd o safon uchel. Ei nod yw gwneud hyn drwy wella ymwybyddiaeth ymwelwyr a mynediad at fwyd a diod yng Nghymru, drwy annog busnesau lletygarwch i ddod o hyd i gynhyrchion Cymreig, a gwella sgiliau o ran paratoi a dod o hyd i fwyd a diod lleol.

Nodir pedwar thema o ran tasgau blaenoriaeth yn y cynllun gweithredu twristiaeth, ac mae pob un yn cynnwys sawl cam i'w gwblhau gan Lywodraeth Cymru, y diwydiant, awdurdodau lleol, asiantaethau'r sector preifat a'r sector cyhoeddus, colegau Addysg Bellach a **WRAP Cymru**:

**01.** Digwyddiadau a gweithgareddau;

**02.** Gwella gwybodaeth am gynhyrchwyr bwyd a bwyd Cymru;

**03.** Datblygu arbenigedd; a

**04.** Cysylltiadau cyhoeddus a marchnata.

# 4. Cefnogaeth i fusnesau bwyd a diod

Amlinellir ystod o gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau bwyd a diod yn y cynllun gweithredu, ac mae cynlluniau pellach wedi'u cyflwyno wedyn.

Mae gan y Rhaglen Datblygu Gwledig ddwy ffrwd ariannu berthnasol: y **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd**, sy'n cefnogi cynhyrchwyr cynradd i wneud gweithgareddau prosesu cam cyntaf a/neu ail gam yng Nghymru, a'r **Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio** sy'n cefnogi gweithgareddau cydweithredol yn y sectorau bwyd, coedwigaeth ac amaethyddiaeth sy'n arwain at ddatblygu cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd. Nid yw dyfodol Rhaglenni Datblygu Gwledig a ariennir gan yr UE y tu hwnt i 2020 yn hysbys ar hyn o bryd.

Caiff **y gwaith o ddatblygu busnes allforio** gan gynhyrchwyr Cymru ei gefnogi drwy'r Rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol. Mae hyn yn cynnwys rhaglen ddigwyddiadau bwyd a diod rhyngwladol ac ar gyfer y DU, a thri phrif fecanwaith cefnogi:

01. Datblygu Masnach Ryngwladol, wedi'i ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru;

02. Cyfleoedd Masnach Ryngwladol, wedi'u hariannu 75 y cant gan Lywodraeth Cymru; a

03. Cynllun Grant Ymweliad Datblygu Busnes Tramor, wedi'i ariannu 50 y cant gan Lywodraeth Cymru.

Sefydlwyd pum 'prosiect clwstwr' o dan Bwyd a Diod Cymru, a gynlluniwyd i gefnogi twf busnes drwy ddod â busnesau, sefydliadau addysgol ac ymchwil a gwneuthurwyr polisi at ei gilydd. At hynny, gall cyllid ar gyfer mentrau bach a chanolig fod ar gael drwy Cyllid Cymru.

Yn olaf, mae Arloesi Bwyd Cymru yn dod ag arbenigwyr o dair canolfan fwyd ledled Cymru ynghyd i gefnogi'r diwydiant gyda chyngor, cymorth technegol, syniadau ac arweiniad ar gymhlethdodau deddfwriaethol a rheoleiddiol. Caiff ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru.

# 5. Cynlluniau enw bwyd gwarchodedig yr UE

Mae rhaglen enwau bwydydd gwarchodedig yr UE yn amddiffyn bwydydd neu ddiodydd rhanbarthol a thraddodiadol cofrestredig ledled yr UE, o dan y gyfraith, rhag cael eu hefelychu. Mae tri chategori ar gael: Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI), Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO), a statws Gwarant Arbenigedd Traddodiadol (TSG). Ar hyn o bryd mae tri chynnyrch Cymreig yn aros am ystyriaeth (cig oen Mynyddoedd Cambria (PGI), Caerffili Cymreig (caws) traddodiadol (PGI) ac eirin Dinbych Dyffryn Clwyd (PGI)) ac mae pedwar ar ddeg eisoes wedi'u cofrestru:

| | |
|---|---|
| Cig oen Cymru PGI | Bara lawr Cymru PDO |
| Cig eidion Cymru PGI | Gwin Rhanbarthol o Gymru PGI |
| Porc pedigri Cymreig a fagwyd yn draddodiadol TSG | Gwin Cymru PDO |
| Tatws cynnar Sir Benfro PGI | Eog a ddaliwyd o gwrwgl Gorllewin Cymru PGI |
| Halen Môn PDO | Gleisiad a ddaliwyd o gwrwgl Gorllewin Cymru PGI |
| Ham Caerfyrddin PGI | Seidr Cymreig traddodiadol PGI |
| Cregyn gleision Conwy PDO | Perai Cymreig traddodiadol PGI |

Comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad i asesu gwerth statws enw bwyd gwarchodedig i Gymru (PDF 745KB). Canfu fod allforion cig oen Cymreig yn elwa o'r statws: Amcangyfrifodd Hybu Cig Cymru fod 25 y cant o'r twf mewn allforion cig oen rhwng 2003 a 2012 yn cael ei briodoli'n uniongyrchol i statws PGI Cig Oen Cymru. Roedd statws PGI cig eidion Cymru hefyd yn helpu i liniaru effeithiau llai o werthiannau cig eidion yn dilyn y sgandal cig ceffyl yn 2013.

Gall dyfodol statws enw bwyd gwarchodedig ar gyfer cynhyrchion Cymreig ddibynnu ar ganlyniad trafodaethau masnach rhwng y DU a'r UE. Gall cynhyrchion o'r tu allan i'r UE gael statws enw gwarchodedig: Mae gan Cambodia, Tsieina, y Weriniaeth Ddominicanaidd, Gwlad Thai, Twrci a Fietnam i gyd gynhyrchion cofrestredig PGI neu PDO. Mae'r Rhwydwaith Gwyddonwyr Fferm (PDF 6.16MB) yn awgrymu bod yr UE yn debygol o fynnu bod enwau bwyd gwarchodedig yn cael eu gwarchod yn y farchnad yn y DU fel rhan o unrhyw fargen fasnach.

# 6. Food Policy as Public Policy - adolygiad o gynllun gweithredu a Strategaeth fwyd Llywodraeth Cymru

Ar gais Llywodraeth flaenorol Cymru, adolygodd y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru y strategaeth a chynllun gweithredu 2014. Lluniodd yr Athrawon Terry Marsden a Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd yr adroddiad: **Food Policy as Public Policy (2016)**.

Canfu'r adolygiad na chafodd strategaeth 2010 ei gweithredu erioed, ac ni chymerwyd unrhyw gamau hyd nes cyhoeddi'r cynllun gweithredu newydd yn 2014. Mae'r adolygiad yn feirniadol o ffocws y cynllun gweithredu ar ddatblygu'r gadwyn gyflenwi bwyd ar ôl y fferm, a'i wahanu o newidiadau ehangach i fwyd a defnydd, neu bolisi a chamau gweithredu ar gynhyrchiad cynradd. Roedd yr adolygiad yn pwysleisio pwysigrwydd cysylltiadau rhwng polisi bwyd a meysydd polisi eraill.

Mae'r adroddiad yn nodi nifer o dueddiadau sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i bolisi bwyd, a enillodd fwy o arwyddocâd rhwng 2010 a 2014 ac sydd, yn ôl yr adroddiad, yn cyfiawnhau integreiddio polisi bwyd â meysydd polisi eraill. Mae'r tueddiadau hyn yn cynnwys: cynyddu tlodi bwyd; lleihau nifer y busnesau fferm annibynnol; pwysau cynyddol am ostyngiadau mewn allyriadau carbon a cholledion bioamrywiaeth o'r sector bwyd; cyflwyno deddfwriaeth newydd sy'n berthnasol i'r sector bwyd-amaeth, cynnwys *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* a *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*; a materion iechyd sy'n codi sy'n gysylltiedig â deiet afiach.

Gwnaed pymtheg o argymhellion i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, gan gynnwys:

- Gwella cynaliadwyedd caffael bwyd y sector cyhoeddus, megis drwy fabwysiadu Rhaglen Ysgolion a Nod Arlwyo **Bwyd am Oes**, a thrwy hyfforddi swyddogion caffael arbenigol;
- Cefnogi ffermwyr i gynhyrchu cynnyrch cynaliadwy, o ansawdd uwch, a hyrwyddo cynhyrchion Cymreig ar sail cynaliadwyedd, yn enwedig yn y sector cig coch;
- Cefnogi arferion defnyddio a chynhyrchu bwyd iach a chynaliadwy;
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi bwyd byr;
- Gwella'r isadeiledd cadwyn cyflenwi bwyd yng Nghymru;
- Ehangu garddwriaeth (planhigion gardd, ffrwythau a llysiau);
- Integreiddio strategaethau datblygu gwledig a bwyd-amaeth;
- Cefnogi mentrau bwyd cymunedol;
- Sefydlu Byrddau Partneriaeth ar gyfer sectorau bwyd; a
- Gwella'r gwaith o gasglu data a monitro gwydnwch bwyd a dangosyddion diogelwch.

Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gyhoeddus i argymhellion yr adolygiad.

# 7. Ffynonellau allweddol

- Y **tudalennau bwyd a diod** ar wefan Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth Cymru, **Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020**

- Llywodraeth Cymru, **Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020**
- Llywodraeth Cymru, **Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd 2015-2020**
- Y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, **Food Policy as Public Policy (2016)**
- Hybu Cig Cymru, **Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Diwydiant Cig Coch (2015)**
- Llywodraeth Cymru, **Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Llaeth Cymru (2007)**
- Seafish, **Wales Seafood Strategy (2016)**
- Gwefan **Bwyd a Diod Cymru**
- Gwefan **Gwobrau Great Taste**
- Gwefan **Cynllun Enwau Bwydydd Gwarchodedig yr UE**